

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

# Strategaeth Cyflogadwyedd Prifysgol Aberystwyth

2024-2029



# Rhagair

Ym Mhrifysgol Aberystwyth, credwn yn natur drawsnewidiol addysg a'r rôl allweddol yr ydym yn ei chwarae wrth ddatblygu ein myfyrwyr ar gyfer cam nesaf eu bywydau. Mae cyflogadwyedd yn rhan annatod o'r hyn a wnawn er mwyn paratoi myfyrwyr ar gyfer eu dyfodol. Mae'r strategaeth hon yn cynrychioli newid sylweddol yn ein dull gweithredu, ac ymrwymiad ar ran y Brifysgol i sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau glas i'n myfyrwyr wrth eu helpu i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd.

Mae ein strategaeth yn nodi pum nod blaenoriaeth y byddwn yn eu cyflawni dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r rhain i gyd wedi'u cynllunio i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein corff myfyrwyr cyfan, waeth beth fo'u cefndir neu'r pwnc y maent yn ei astudio. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod dysgu sy'n berthnasol i fyd gwaith yn cael ei gynnig i bob myfyriwr, a sicrhau ein bod yn ymgorffori sgiliau cyflogadwyedd allweddol yn y cwricwlwm.

Mae cyflogadwyedd a datblygu gyrfaoedd myfyrwyr yn rhan annatod o'r daith ddysgu, ac rydym yn benderfynol o sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau glas i'n myfyrwyr drwy gyflawni'r strategaeth hon.

**Yr Athro Jon Timmis**
**Is-Ganghellor**

# Strategaeth Cyflogadwyedd Prifysgol Aberystwyth 2024-2029

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod amrywioldeb cyfoethog a chynyddol ei myfyrwyr ac mae wedi ymrwymo'n llwyr i gynnig dull cynhwysfawr o ddarparu cefnogaeth cyflogadwyedd.

Mae'r dull hwnnw'n galluogi uchelgais pob myfyriwr ar gyfer eu dyfodol trwy ddarparu profiad ymdrochol i fyfyrwyr sy'n rhan annatod o'r cwricwlwm, ac sy'n gwrando ar anghenion byd diwydiant ac yn ymgorffori'r anghenion hynny ynddo gan annog myfyrwyr i fanteisio ar gyfleoedd cyd-gwricwlaidd datblygiadol ehangach. Mae'n annog ein myfyrwyr - yn israddedigion, yn uwchraddedigion a ddysgir drwy gwrs, a'r uwchraddedigion ymchwil - i ysgwyddo cyfrifoldeb personol a buddsoddi yn eu dysgu eu hunain a gwella eu sgiliau eu hunain yn barhaus.

Drwy hynny fe sicrheir eu bod yn eu deall eu hunain yn well, yn gwneud penderfyniadau ar sylfaen gwybodaeth gadarn, ac yn cael llwyddiant parhaol yn eu gyrfaoedd fel graddedigion.

Mae'r strategaeth hon yn rhan annatod o weledigaeth a datblygiad y strategaethau cefnogol isod:

- **Cenhadaeth Strategol**
- **Strategaeth Dysgu ac Addysgu**
- **Strategaeth Denu Myfyrwyr Rhyngwladol 2023-2030**
- **Strategaeth Ehangu Mynediad 2022-26**
- **Strategaeth Ddigidol 2021-25**



Gwerthoedd ein Cenhadaeth Strategol sy'n arwain ein dull o weithio:

## Trawsnewidiol

yn darparu profiad sy'n cefnogi, grymuso a chyfoethogi ein myfyrwyr.

## Creadigol ac arloesol

yn gwerthfawrogi creadigrwydd ym mhawb ac yn diweddaru ein gwybodaeth, ein harferion a'n proffesiynoldeb yn barhaus er mwyn gwella profiad y myfyrwyr.

## Cynhwysol

yn dathlu ein diwylliant amrywiol, drwy alluogi, annog, a gwerthfawrogi taith barhaus pawb i sicrhau eu bod yn gwella'n gyson

## Uchelgeisiol

yn ymdrechu i ddarparu'r profiad o'r ansawdd gorau bob amser sy'n paratoi ein myfyrwyr ar gyfer eu dyfodol fel graddedigion.

## Cydweithredol

drwy weithio gyda'n gilydd fel cymuned gyda'n partneriaid er mwyn meithrin cysylltiadau parhaol sy'n cyflawni ein cyd-ddyheadau.



# Amcanion a Chamau Blaenoriaethol

1 Ymgorffori cyflogadwyedd, menter, a datblygu sgiliau ym mhob agwedd ar y meysydd llafur.

2 Cryfhau ein cysylltiadau â'n cyn-fyfyrwyr a chyflogwyr.

3 Sicrhau bod dysgu sy'n berthnasol i fyd gwaith yn rhan o brofiad pob myfyriwr.

4 Teilwra'r gefnogaeth a'n mentrau i gyd-fynd â'r amrywioldeb sydd ymhlith ein myfyrwyr.

5 Sicrhau bod ein dull o weithio'n ddatblygol, yn sefydliadol ac yn edrych tua'r dyfodol.

## 1 Ymgorffori cyflogadwyedd, menter, a datblygu sgiliau ym mhob agwedd ar y meysydd llafur.

**Byddwn yn darparu cymorth i'r adrannau academaidd ar draws y cyfadrannau er mwyn datblygu elfennau dysgu sy'n gynaliadwy ac sydd wedi'u teilwra ar gyfer cyflogadwyedd, menter busnes a byd gwaith, gan eu hymgorffori ym mhob cam o brofiad y myfyriwr, a sicrhau meysydd llafur cyfoethog a thrawsnewidiol sy'n canolbwyntio ar yrfaoedd i'r holl fyfyrwyr.**

- Gyrru newid trwy Gynlluniau Gweithredu a arweinir gan y cyfadrannau, sy'n amlinellu'r blaenoriaethau blynyddol a fydd yn canolbwyntio ar gyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol cyflogadwyedd ar y lefel adrannol.
- Mapio camau integreiddio'r sgiliau cyflogadwyedd a menter MAF 1 ar draws y cwricwlwm a hybu integre i ddio pellach.
- Annog cydweithredu rhwng y byd academaidd a chyflogwyr i dargedu datblygu sgiliau a defnyddio dulliau 'go iawn' o ddysgu ac asesu a fydd wedi'u hymgorffori yn y dysgu, lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu'r gymorth bresennol sydd ar gael ar gyfer ddatblygu menter a sgiliau busnes ym mhob rhan o'r brifysgol.
- Meithrin ymagwedd ar y cyd o ymdrin â chyflogadwyedd, sy'n amlygu ymarfer da, gan weithio tuag at ddarparu pecyn o hyfforddiant i'r staff ar faterion cyflogadwyedd, a phecyn sgiliau cyflogadwyedd integredig ar lein.



## 2 Cryfhau ein cysylltiadau â'n cyn-fyfyrwyr a chyflogwyr.

**Byddwn yn datblygu cysylltiadau allanol cryfion ac amrywiol gan ein gwneud yn gyrchfan boblogaidd wrth ddenu staff dawnus, ac yn cryfhau ein partneriaethau â diwydiant; cawn gyngor ar y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol a chydweithio i sicrhau bod ein myfyrwyr yn manteisio ar bob cyfle.**

- Anelu at sicrhau 'maes chwarae gwastad' i bob myfyriwr drwy gynnig ystod amrywiol o gyfraniadau gan gyflogwyr o fewn y cwricwlwm ac ar lefel y Gwasanaethau.
- Mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gysylltiadau hirdymor ac ystyrlon, sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, â chyflogwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Darparu amrywiaeth o gyfleoedd wedi'u targedu ar y campws i feithrin cyswllt rhwng myfyrwyr a graddedigion diweddar â'r cyflogwyr hyn drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys digwyddiadau allweddol fel y Ffair Yrfaoedd Flynyddol a Gŵyl Yrfaoedd y Brifysgol.
- Ymgynghori ag arbenigwyr yn y diwydiant, i sicrhau bod yr holl ddysgu'n bodloni'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.
- Cefnogi gweithgareddau mewn prosiectau sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd yn lleol.



## 3 Sicrhau bod dysgu sy'n berthnasol i fyd gwaith yn rhan o brofiad pob myfyriwr.

**Byddwn yn sicrhau y bydd y myfyrwyr i gyd yn gallu disgwyl ychwanegu profiad proffesiynol at eu taith drwy addysg uwch, gan helpu ein holl fyfyrwyr i fagu hyder yn eu sgiliau ac ehangu eu rhwydweithiau proffesiynol, yn ogystal â lleihau'r bylchau yn natblygiad gyrfaol y myfyrwyr a'r graddedigion hynny yr ystyrir eu bod yn llai tebygol o symud ymlaen i gyflogaeth ar lefel raddedig.**

- Ymdrechu i weithio ar draws y Brifysgol a datblygu 'Llwybr Cyflogadwyedd Cyntaf Myfyrwyr' Prifysgol Aberystwyth (llwybrau i sicrhau cyflogaeth ac astudiaethau ym Mhrifysgol Aberystwyth) trwy waith rhan-amser, interniaethau, cyfleoedd i raddedigion, a modiwlau cyflogadwyedd academaidd.
- Gweithio ar y cyd â'r Cyfadrannau i gynyddu'r niferoedd o fyfyrwyr sy'n ymgymryd â lleoliad gwaith am flwyddyn, naill ai fel Blwyddyn Integredig mewn Diwydiant (IYI) neu'r Cynllun Blwyddyn mewn Gwaith (YES) dan arweiniad Gwasanaethau Gyrfaoedd y Brifysgol.
- Darparu profiad gwaith wedi'i dargedu ar gyfer y myfyrwyr sy'n cofrestru ar ein Rhaglen Parodrwydd am Yrfa ac ehangu'r hyn a gynigiwn i fyfyrwyr Rhyngwladol ac Ôl-raddedig.
- Mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi'r ddarpariaeth o leoliadau gwaith ar draws y Cyfadrannau ac ar lefel y Gwasanaethau.





## 4 Teilwra'r gefnogaeth a'n mentrau i gyd-fynd â'r amrywioldeb sydd ymhlith ein myfyrwyr.

**Rydym wedi ymrwymo i symudedd cymdeithasol pob myfyriwr ac yn credu y dylai pawb, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol, allu ffynnu a llwyddo. Wrth wneud hynny, byddwn yn:**

- Gweithio gyda darparwyr cymorth arbenigol a chyflogwyr sydd am wella symudedd cymdeithasol yn y gweithle.
- Cynnig mentrau wedi'u targedu gan gynnwys ein 'Cymorth Parod am Yrfa' i fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, gan gynnwys ein graddedigion diweddar.
- Darparu cyngor, arweiniad, profiad gwaith ac adnoddau pwrpasol ar gyfer ein myfyrwyr rhyngwladol ac ôl-raddedig.



## 5 Arddel dull o weithio sy'n ddatblygol, sefydliadol ac yn edrych tua'r dyfodol.

**Rydym yn annog ein myfyrwyr i gofleidio creadigrwydd, cael eu hysbrydoli, cyflawni eu huchelgais, a gwireddu eu syniadau trwy weithio ar y cyd er mwyn darparu rhaglen ar gyfer sgiliau, cyflogadwyedd a menter ar lefel y Sefydliad sy'n gydlynol ac yn darparu cymhelliant. Gweithio'n gydlynol gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad, a datblygu ein cefnogaeth Gwasanaeth Gyrfaoedd ar-lein.**

- Buddsoddi i ddarparu gwasanaeth gyrfaoedd ar-lein rhyngweithiol sy'n mantesio ar dechnoleg ymgolli.
- Gweithio ar draws y Brifysgol i gyflwyno cynllun cymhelliant i annog pobl i fanteisio ar:
  - hyfforddiant, digwyddiadau a phrofiadau a ddarperir yn ganolog ynghylch cyflogwyr, cyflogadwyedd a menter busnes er mwyn meithrin sgiliau, datblygu hyder ac annog creadigrwydd myfyrwyr.
  - Rhaglen Sgiliau Prifysgol Aberystwyth (SgiliauAber), sef fframwaith sy'n mapio taith y myfyrwyr ac sy'n cynnwys rhaglen hyfforddi sgiliau i fyfyrwyr ledled y brifysgol, micro-gymwysterau (LinkedIn Learning), a llwybrau sgiliau ar-lein.
- Llunio ymagwedd a arweinir gan gynaliadwyedd yn unol â Chenhadaeth Strategol y Brifysgol i sicrhau bod cyfleoedd cyflogadwyedd yn paratoi myfyrwyr i ddod yn ddinasyddion byd-eang gweithredol, sy'n gallu cael effaith gadarnhaol ar y byd.



## Meini prawf llwyddiant

% cynnydd ym mesuriadau canlyniadau graddedigion (GO) y Brifysgol ar gyfer

- Sgôr Rhagolygon Graddedigion
- Graddedigion yn mynd i waith hyfedrus

*(gan ddefnyddio data'r canlyniadau graddedigion a ryddhawyd yn 2021 yn feincnod).*

- Cynnydd bob blwyddyn yn yr agweddau isod:

- a) Myfyrwyr yn eu blwyddyn olaf sy'n dweud eu bod yn barod am yrfa
- b) Myfyrwyr sy'n dweud eu bod wedi cael profiad sy'n gysylltiedig â byd gwaith.
- c) Myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig yn manteisio ar weithgareddau a fydd yn datblygu eu cyflogadwyedd.
- d) Myfyrwyr rhyngwladol yn cymryd Fisa Gwaith Ôl-Astudio
- e) Myfyrwyr sy'n creu eu gwaith eu hunain ar lefel raddedig drwy hunangyflogaeth, sefydlu cwmnïau neu ddatblygu portffolio proffesiynol.

## Gweithredir gan

Arweinir gan Wasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol ond fe feithrinir dull cydweithredol o ymgorffori cyflogadwyedd a chodi ymwybyddiaeth ohono ar draws y sefydliad dros gyfnod y strategaeth hon.












Prifysgol Aberystwyth
Campws Penglais
Aberystwyth

aber.ac.uk

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%